

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

GWASANAETH PLANT A
PHOBL IFANC



POLISI A DARPARIAETHAU ADDYSG ARBENNIG

POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

CYFLWYNIAD

Mae'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn Wrecsam yn rhan gyfannol o'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc. Cydnabyddwn fod plant a phobl ifanc yn mentro i bopeth ac fod angen mwy o gefnogaeth ar rai er mwyn iddynt wireddu eu potensial.

Addewid Wrecsam (2006 – 2016)

Bydd Wrecsam yn sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael pob cyfle i wireddu eu potensial mewn amgylchedd dwyieithog sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi pob traddodiad a diwylliant.

EGWYDDORION SY'N FFURFIO'R POLISI ADDYSG ARBENNIG WRECSAM

Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cefnogi'r ymagweddau a amlinellir yng Nghôd Ymarfer AAA (Cymru) fel fframwaith priodol y gellir ei ddefnyddio i gyflwyno darpariaethau ar gyfer AAA.

Ar gyfer y mwyafrif o blant, bydd eu hysgol brif ffrwd yn bodloni pob un o'u hanghenion addysgol arbennig. Bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai plant gan yr Awdurdod Addysg Lleol (Awdurdod Lleol) neu asiantaethau eraill y tu allan i'r ysgol. Bydd gan leiafrif bychan o blant AAA mor ddwys neu gymhleth y bydd angen i'r Awdurdod Lleol benderfynu ar ddarpariaeth addysgol arbennig a'i threfnu.

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cefnogi'r egwyddorion a'r dealltwriaethau canlynol wrth fodloni AAA: -

- dylid bodloni anghenion plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- fel rheol, caiff anghenion addysgol arbennig plant eu bodloni mewn ysgolion neu osodiadau yn y brif ffrwd;
- dylid ceisio barn y plentyn a'i hystyried;
- mae gan rieni rôl hanfodol o ran cefnogi addysg eu plentyn;
- dylid cynnig mynediad llawn i blant ag anghenion addysgol arbennig at addysg eang, cytbwys a pherthnasol sy'n seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac i blant cyn oed ysgol, y "Cwricwlwm Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen.

DIFFINIAD O ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blentyn anhawster dysgu os: -

- ydynt yn ei chael hi'n anoddach i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran; neu
- os oes ganddynt anabledd sy'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr Awdurdod Addysg Lleol;
- os ydynt o dan 5 oed ac yn gymwys i ddiffiniad (a) neu (b) uchod pe na fyddai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei gwneud ar gyfer y plentyn.

Ni ddylid ystyried bod gan blentyn anhawster dysgu oherwydd i'r iaith neu'r cyfrwng cyfathrebu yn y cartref fod yn wahanol i'r iaith y cânt eu dysgu ynddi'n unig.

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

- (a) i blant dwy oed a throsodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol fel arall i, y ddarpariaeth addysgol a wneir yn gyffredinol ar gyfer plant o'u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALI, ar wahân i ysgolion arbennig, yn yr ardal;
- (b) i blant o dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

Adran 312, Deddf Addysg 1996

Caiff anabledd ei ddiffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel:

Mae gan berson *anabledd* i bwrpasau'r Ddeddf hon os oes gan y person nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd arferol.

Deddf Cydraddoldeb 2010

*O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mewn perthynas â'r nodwedd anabledd warchoddedig:

- (a) mae cyfeiriad at berson sydd â nodwedd warchoddedig neilltuol yn gyfeiriad at berson sydd ag anabledd neilltuol;
- (b) mae cyfeiriad at bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig yn gyfeiriad at bersonau sydd â'r un anabledd.

Deddf Cydraddoldeb 2010

AMCANION

Cynhwysiad

Mae gan bob plentyn ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam hawliau cyfartal i'r cyfleoedd a gynigir gan addysg. Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i gefnogi plant ag anghenion arbennig o fewn darpariaethau'r brif ffrwd lle bynnag y bo hynny'n bosibl, â chefnogaeth briodol. Mae ganddynt hefyd hawl i addysg sy'n sicrhau parhad a chynnydd cyn iddynt gyrraedd oed ysgol hyd at addysg ôl-16. Byddwn yn ceisio bodloni anghenion plant a phobl ifanc o fewn ysgolion yn Wrecsam lle bynnag y bo

hynny'n bosibl, a chaiff gosodiadau ysgol y tu allan i'r sir eu defnyddio os nad oes darpariaeth leol addas yn unig.

Byddwn yn ceisio darparu continwwm o ddarpariaethau arbennig sy'n caniatáu i ddisgyblion symud ar draws y gwahanol gamau o'r continwwm wrth i'w hanghenion newid a datblygu. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan ddisgyblion ag anghenion arbennig fynediad i staff â chymwysterau, profiad a hyfforddiant priodol i'w galluogi i gael mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol. (Gweler hefyd Atodiad 1.)

Ymyrraeth Gynnar

Cydnabyddwn pwysigrwydd nodi, asesu ac ymyrryd ar gyfer unrhyw blentyn y mae'n bosibl fod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Bydd yn ceisio gweithio'n agos ag asiantaethau statudol a gwirfoddol er mwyn hwyluso ymagwedd gyd-drefnedig a chyfannol tuag at asesu ac ymyrryd. Mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio bod yn fwy rhagweithiol o ran nodi anghenion arbennig ac ymateb iddynt drwy ymyrryd yn gynt ar lefel unigol a sefydliadol.

Codi Safonau

Rydym yn ymroddedig i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion ledled y Fwrdeistref Sirol drwy geisio cyfranogiad pob disgybl i ddyngu sy'n arwain at y lefel gyrhaeddiad orau posibl. Rydym yn cefnogi ymagwedd y llywodraeth ganolog o ran pwysleisio'r angen am ddisgwyliadau uchel ar gyfer plant sy'n profi anghenion addysgol arbennig. Defnyddir ystod o asesiadau i ddarparu gwybodaeth am gynnydd disgyblion. Bydd y rhain yn cynnwys cyraeddiadau, asesiadau athrawon ac asesiadau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol a chynnydd yn erbyn cynlluniau addysg unigol.

Asesu a Nodi Anghenion Addysgol Arbennig

Caiff pob plentyn sy'n profi anawsterau dysgu eu nodi a'u hasesu'n unol â gofynion a chyfarwyddyd deddfwriaethol. Rydym yn disgwyl i ysgolion ddilyn y cyfarwyddyd a amlinellir yng Nghôd Ymarfer AAA (Cymru) mewn perthynas â Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Byddwn yn anelu'n barhaus at wella'r prosesau, y gweithdrefnau a'r arferion sy'n ymwneud ag asesu a nodi anghenion addysgol arbennig, ac yn adolygu'r meini prawf sy'n ymwneud ag asesiadau statudol, gan gynnwys dulliau ariannu. Byddwn yn parhau i ddarparu cyfarwyddyd a chefnogaeth ar gyfer ystod o strategaethau er mwyn rheoli dysgu ac ymddygiad, a darparu hyfforddiant fel y bo'n briodol.

Byddwn yn ceisio cwblhau asesiadau statudol yn gywir o fewn cyfyngiadau amser penodedig, ac yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau fod Adolygiadau Blynyddol ar gyfer Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig yn gywir ac yn gynhyrchiol.

Partneriaeth

Cydnabyddwn fod "partneriaeth" â nifer o bartïon yn elfen allweddol er mwyn sicrhau bod disgyblion ag anghenion arbennig yn cyflawni eu potensial llawn. Yn benodol, mae partneriaethau fel y rhain y debygol o gynnwys:

- disgyblion
- rhieni a gofalwyr

- ysgolion a llywodraethwyr
- sefydliadau gwirfoddol
- gwasanaethau cyn oed ysgol
- Bwrdd Iechyd Lleol a'r Gwasanaethau Diogelu a Cefnogi
- Prifysgol Glyndwr; Coleg Iâl
- Gyrfa Cymru

Er mwyn datblygu partneriaeth debyg, bydd yr Awdurdod Lleol yn:-

- gweithio'n agos â llywodraethwyr, penaethiaid, CAAA, staff ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill;
- datblygu ei waith â rhieni a gofalwyr plant ag anghenion arbennig, a'r disgyblion eu hunain pan fo hynny'n bosibl;
- datblygu perthnasau cadarnhaol a chreadigol â'r sector gwirfoddol;
- darparu cyngor a gwybodaeth i rieni am ddarpariaethau a threfniadau ar gyfer anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys sut y gallant fod yn rhan o'r broses;
- gweithio'n agos â'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Gwasanaethau Cefnogi a Diogelu a'r Gwasanaeth Dysgu a Chyflawniad yn ogystal â gwasanaethau eraill o fewn y Gwasanaeth Atal a Chynhwysiad.

Y POLISI AR WAITH

Bydd y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i weithredu'r polisi hwn yn cydweddu â chyfarwyddyd statudol ac arfer sefydledig cytunedig tra'n parhau'n ymwybodol o fentrau a datblygiadau newydd. Byddwn yn adolygu ac yn ceisio gwella arfer ym mhob maes sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Byddwn yn parhau i roi cyngor a chyfarwyddyd ar faterion a dogfennaeth sy'n ymwneud ag anghenion arbennig. Bydd hyn yn cynnwys:-

- prosesau, meini prawf a gweithdrefnau sy'n ymwneud â nodi, asesu a darparu;
- meini prawf sy'n ymwneud ag asesiadau statudol;
- anawsterau a brofir gan blant wrth ddysgu;
- strategaethau i reoli dysgu ac ymddygiad (gan gynnwys yr hyfforddiant sydd ar gael);
- y darpariaethau addysg arbennig sydd ar gael gan gynnwys y meini prawf derbyn a'r dulliau ariannu;
- cyfrifoldeb y Cyngor dros addysg ar gyfer Plant y Gofelir Amdanynt;
- y wybodaeth sydd ei hangen ar blant a rhieni i wneud penderfyniadau cytbwys.

NAWDD AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

CYFLWYNIAD

Mae'r Awdurdod Lleol (ALL) wedi ceisio gweithredu ymagwedd gynhwysol tuag at addysg disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Caiff disgyblion eu dysgu yn eu hysgolion prif ffrwd lleol lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gyda'r ALL yn cefnogi ysgolion i fodloni anghenion disgyblion AAA. Mae ysgolion yn gyfrifol am lunio cynlluniau addysg unigol (CauAU) ar gyfer eu disgyblion ag AAA, a'u rhoi ar waith. Mae ystod o wasanaethau a darpariaethau ar gael i gefnogi'r disgyblion hyn, ac i ategu at y gwaith sy'n seiliedig yn yr ysgol a ddarperir gan yr ysgol o'u cyllidebau dirprwyedig.

Nawdd drwy'r Uned Disgyblion Seiliedig ar Oed

Mae ysgolion y brif ffrwd yn Wrecsam yn derbyn y rhan fwyaf o'u harian drwy'r elfen ariannu sy'n seiliedig ar ddisgyblion: Uned Disgyblion Seiliedig ar Oed (UDSO). Mae hyn yn golygu bod pob disgybl o'r un oedran mewn ysgol brif ffrwd yn derbyn lefel gywerth o adnoddau i ariannu ystod eang o weithgareddau addysgol y disgwylir i bob ysgol eu darparu. Mae hyn yn cynnwys ymateb yr ysgol i'r anghenion addysgol arbennig a fydd gan blant efallai am gyfnod yn ystod eu bywyd ysgol. Bydd angen i bob ysgol ymgymryd â'r gweithgareddau hyn i ryw raddau, er y gallai maint ac ystod y ddarpariaeth honno amrywio. Mae pob plentyn, gan gynnwys y rhai hynny ag anghenion addysgol arbennig, yn aelod llawn o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod angen i ysgolion fod yn barod i fodloni anghenion pob un o'u disgyblion wrth lunio gweithgareddau eang bywyd ysgol.

Darparu ar gyfer AAA yn UDSO

Mae nawdd UDSO yn clustnodi swm cyfartal i bob ysgol ar gyfer pob disgybl o'r un oedran, a dyma sut mae ysgolion yn derbyn y rhan fwyaf o'u nawdd. Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod Lleol yn disgwyl y bwriedir 5% o bob UDSO, mewn egwyddor, i gefnogi AAA.

Disgwylir i'r nawdd hwn gwmpasu'r gweithgareddau canlynol:-

- gweithgareddau'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys eu trefnu a'u cyflwyno;
- trefniadau penodol i gyfatebu arddulliau addysgu, cynnwys ac asesiadau i anghenion disgyblion;
- cynllunio sy'n ystyried anghenion pob disgybl;
- addasu/gwahaniaethu rhai deunyddiau ar gyfer disgyblion unigol;
- paratoi pob myfyriwr i fyw mewn cymdeithas amrywiol;
- cefnogaeth i addasu ymddygiad disgyblion;
- mynediad i adnoddau yn yr ysgol;
- monitro ac adolygu cynnydd;
- trefniadau cyfathrebu rhwng staff;
- gwell cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol;
- datblygu a gweithredu **polisi ysgol gyfan ar gyfer AAA** sy'n: -
 - a) disgrifio sut caiff anghenion eu nodi a'u bodloni;

- b) ei gwneud hi'n glir sut caiff anghenion plant eu cofnodi a'u cyfathrebu i bob aelod arall o staff yn ogystal â rhieni a myfyrwyr os yw'n briodol;
- c) amlinellu trefniadau ar gyfer sefydlu a chynnal cysylltiadau ag asiantaethau eraill;
- ch) esbonio sut caiff anghenion hyfforddi staff mewn perthynas ag AAA eu nodi a'u bodloni;
- d) ei gwneud hi'n glir sut y rheolir cwynion ac anghydfodau;
- dd) sicrhau y cyflwynir adroddiadau blynyddol i rieni gan y llywodraethwyr ynghylch faint o bolisiâu AAA a weithredwyd;
- e) disgrifio trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer AAA.

Nawdd ar gyfer Darpariaethau Adnodedig

O fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam mae amryw o ddarpariaethau adnodedig arbenigol a gynhelir gan ysgolion yn y brif ffrwd, sy'n darparu ar gyfer anghenion unigol gwahanol disgyblion. Ar hyn o bryd, mae 231 o leoedd ar gael ar lefel gynradd, a 198 o leoedd ar gael ar lefel uwchradd.

Mae'r dull ariannu ar gyfer darpariaethau adnodedig yn ddibynnol ar natur y ddarpariaeth. Caiff disgyblion eu bandio yn ôl y math o anghenion sydd ganddynt, a'u difrifoldeb. Mae'r nawdd hwn ar ben y nawdd ar gyfer disgyblion yn seiliedig ar oed.

Nawdd Ysgolion Arbennig

Mae gan Ysgol Sant Christopher 240 o leoedd cynlluniedig ac mae'n derbyn nawdd dirprwyedig yn seiliedig ar nifer y disgyblion ac ar anghenion disgyblion unigol.

Nawdd ar gyfer Disgyblion ag AAA a gedwir yn ganolog

Caiff y nawdd ar gyfer AAA a gedwir yn ganolog ei rannu i nifer o gategoriâu gydag amryw o ddulliau ariannu ar gyfer pob pennawd. Y prif gategoriâu yw:-

a) Costau Cefnogi Gwasanaeth

Mae'r rhain yn cynnwys Seicolegwyr Addysg, y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, y Gwasanaeth Synhwyrdd, Athrawon y Gwasanaeth Anghenion Arbennig, Tîm Allgymorth Iaith a Lleferedd y Tîm Datganiadau a Gweithwyr Cymdeithasol Addysg.

Caiff lefel y gefnogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir i ysgolion a/neu ddisgyblion unigol eu penderfynu gan boblogaeth yr ysgol a difrifoldeb yr anghenion.

b) Cefnogaeth i ddisgyblion AAA

Caiff hyn ei hariannu'n ganolog ond ei darparu gan yr ysgol. Mae'r adnodd hwn yn ategu at y gefnogaeth a ddarperir gan yr ysgol. Bydd Panel Cymedroli o swyddogion yr Awdurdod Lleol yn penderfynu ar ddyraniad yr adnoddau i ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion unigol.

Yn ogystal â hyn, caiff offer arbenigol drud (e.e. offer codi, gliniaduron, seti arbennig ac ati) ei brynu ar gyfer disgyblion unigol.

Mewn rhai achosion lle nad oes darpariaeth arbenigol ar gael o fewn Awdurdod Lleol Wrecsam, bydd angen sicrhau darpariaeth y tu allan i'r sir. Byddai'r gosodiad naill ai gydag Awdurdod Lleol arall (e.e. Sir Ddinbych - Ysgol Plas Brondyffryn) neu ysgol annibynnol (e.e. West Kirby). Mae'r ALI yn sicrhau trefniadau nawdd ar y cyd â'r Gwasanaeth Diogelu a Chefnogi ac/neu'r Bwrdd Iechyd Lleol lle bo'n briodol.

POLISI A DARPARIAETHAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

HYBU ADDYSG O SAFON UCHEL AR GYFER PLANT AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Rydym yn ymroddedig i hybu addysg o safon uchel i bob un o'i ddisgyblion. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy:-

- sicrhau y rhoddir yr un hawl gwricwlaidd i bob plentyn ac unigolyn ifanc. Bydd pob plentyn yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol/Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar oni bai fod angen ei addasu neu ei ddadgymhwysu er mwyn bodloni ei AAA penodol;
- sicrhau hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff ysgol i'w helpu i fodloni anghenion yn gywir;
- darparu hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth reolaidd ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA);
- rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar faterion cyffredinol sy'n ymwneud â rheolaeth a pholisïau AAA;
- asesu plant ag AAA lle bo hynny'n briodol yn unol â natur a difrifoldeb eu hanghenion;
- dyrannu nawdd ac adnoddau eraill digonol i ysgolion i'w galluogi i fodloni AAA ar Weithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy;
- anfon datganiadau AAA neu nodiadau yn lle datganiad sy'n trefnu darpariaethau priodol i fodloni anghenion pob plentyn;
- sicrhau gosodiad mewn ysgolion arbenigol y tu allan i'r sir ar gyfer y plant hynny na ellir bodloni eu hanghenion eithriadol o fewn ein hysgolion a'n darpariaethau adnoddedig ein hunain;
- annog ysgolion i fod â disgwyliadau uchel ar gyfer eu disgyblion ag AAA;
- gweithio gyda phenaethiaid ysgolion arbennig i osod targedau gwella llawn her i'w disgyblion;
- dosbarthu a diweddarau'r llawlyfr AAA i ysgolion;
- datblygu'r defnydd o systemau data am ddisgyblion.

**ANNOG PLANT AG AAA I GYMRYD RHAN YN EU HYSGOLION A’U
CYMUNEDAU A CHYMRYD RHAN YN Y PENDERFYNIADAU
YNGHYLCH EU HADDYSG.**

Rydym yn cefnogi athroniaeth Côt Ymarfer AAA Cymru i annog plant i fod yn fwy gweithgar yn eu hysgolion a’u cymunedau ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir ynghylch eu haddysg yn .

- Caiff plant eu gosod mewn ysgolion un unol â barn a dymuniadau’r plentyn a’i r(h)ieni lle bynnag y bo hynny’n bosibl. Ymgynghorir â’r rhieni bob amser. Ymgynghorir â’r plant lle bynnag y bo hynny’n briodol. Y maen prawf ar gyfer y gosodiadau hyn yw y caiff plant eu haddysgu mewn ysgolion o’u dewis hwy ac/neu dewis eu rhieni, cyn belled:-
 - ag y gallai’r gosodiad fodloni AAA y plentyn;
 - na fydd y gosodiad yn niweidio ar blant eraill; a
 - bod y gosodiad yn cynrychioli defnydd effeithiol o adnoddau’r Awdurdod Lleol.
- Ar gyfer y mwyafrif helaeth o blant, bydd eu gosodiad yn y brif ffrwd yn bodloni pob un o’u hanghenion addysgol arbennig.
- Os na allai ysgol brif ffrwd lleol y plentyn fodloni ei AAA, yna ystyrir ysgol arall yn y brif ffrwd sydd ag adnoddau priodol. Pan fo’n amlwg na all ysgolion yn y brif ffrwd fodloni AAA plant yn llawn ac yn briodol, gwneir darpariaeth ran-amser neu lawn-amser arall ar eu cyfer.
- Mae addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i bob plentyn y mae ei r(h)ieni wedi dewis addysg drwy’r cyfrwng hwnnw. Mae ystod o ddarpariaethau ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ag AAA. Mae nifer o blant sy’n siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf yn mynychu ysgolion Cymraeg. Wrth ystyried addysg Gymraeg, anogir rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig i ystyried pob ffactor wrth ystyried os yw addysg ddwyieithog yn briodol i’w plentyn.
- Mae ysgolion a gwasanaethau cefnogi yn ymchwilio i ystod o ddulliau y gall plant a phobl ifanc eu defnyddio i fynegi eu barn am unrhyw gefnogaeth ychwanegol a ddarperir. Anogir disgyblion yn weithredol i gymryd rhan mewn adolygiadau ayb.

ANNOG YSGOLION I RANNU ARFER DA

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dosbarthu Llawlyfr Arfer Da ar gyfer Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig. Paratowyd y llawlyfr i gefnogi Côt Ymarfer AAA Cymru ac er mwyn sicrhau y gall ysgolion yng Nghymru ymateb yn gadarnhaol i anghenion plant.
- Rydym yn anelu at gyhoeddi Llawlyfr Anghenion Addysg Arbennig yn cynnwys enghreifftiau o batrymau ac arferion da ar gyfer diwallu AAA. Caiff ysgolion eu hannog i gyfrannu enghreifftiau ychwanegol i'w cynnwys yn y Llawlyfr.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cyhoeddi enghreifftiau o fodelau ac arferion da ar gyfer bodloni AAA. Anogir ysgolion i gyfrannu enghreifftiau pellach o arfer da.
- Bydd y Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg nodi arfer da mewn ysgolion, a gaiff ei rannu â phob ysgol drwy HMS a chyfarfodydd â ChAAA.
- Mae fforymau CAAA ar waith ar gyfer cyfnodau cynradd ac uwchradd lle rhennir arfer da.

GWEITHIO GYDA CHYRFF STATUDOL A GWIRFODDOL ERAILL I DDARPARU CEFNOGAETH I BLANT AG AAA

Ar gyfer pob plentyn ag AAA, mae'r Awdurdod Lleol, ysgolion a'r Gwasanaethau Cefnogi yn gweithio'n gadarnhaol i ddatblygu trefniadau gweithio cydweithredol â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Ymddiriedolaeth Iechyd, Bwrdd yr Awdurdod Iechyd ac asiantaethau gwirfoddol.

TEITL Y FFORWM	PRIF SWYDDOGAETH	AELODAETH
Cymedroli Asesiadau Statudol gan gynnwys Blynyddoedd Cynnar	Cymedroli penderfyniadau ynghylch asesiadau statudol i blant.	Seicolegydd Addysg, Pennaeth y Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg, Swyddogion Cefnogi Disgyblion, Rheolwr y Gwasanaeth AAA
Paneli Cefnogi Ymddygiad (Cynradd ac Uwchradd)	Cydlynu amrywiaeth o fewnbwn gan asiantaethau ar gyfer plant ag anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol.	Pennaeth Uwchradd, Mynediad Ieuenctid, Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Tîm Troseddau Ieuenctid, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Uned Atgyfeirio Disgyblion, Gweithwyr Cymdeithasol Addysg, Pennaeth Cynhwysiad Addysg, Swyddog Cefnogi Disgyblion.
Grŵp Cydgomisiynu	Penderfynu ar bolisiau, darpariaethau a nawdd ar y cyd ar gyfer plant sydd ag anghenion difrifol a chymhleth.	Bwrdd Iechyd Lleol, Swyddogion yr ALL, Gwasanaethau Diogelu a Chefnogi
Asesiad Awtistiaeth Blynyddoedd Cynnar a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Oed Ysgol	Nodi plant sydd ag Anhwylder Sbectwm Awtistiaeth a chynllunio gwasanaethau.	Bwrdd Iechyd Lleol, Swyddogion yr ALL, Seicolegwyr Addysg, Gwasanaethau i Blant.
Uned Iaith / Grŵp Datblygu Gwaith Allgymorth	Llunio a gwerthuso darpariaethau ar gyfer disgyblion ag anhwylderau iaith a lleferydd.	Therapyddion Iaith a Lleferydd, Swyddogion yr ALL, staff yr Uned Iaith.
Cyfarfodydd y Gwasanaeth Anghenion Arbennig	Cyfarfodydd ysgolion cynradd sy'n adolygu plant ag anawsterau dysgu penodol ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy	Penaethiaid, CAAA, athrawon dosbarth, staff y Gwasanaeth Cefnogi Dysgu.
Grŵp y Rhieni / Gofalwyr / CAB / <i>Talk for Talk</i>	Trafod amrywiaeth o bynciau / faterion a gytunwyd â rhieni.	CAB, Swyddogion Cefnogi Disgyblion, rhieni / gofalwyr, Gwsanaethau Gwirfoddol.
Panel PGA	Hybu a chyfoethogi cyraeddiadau addysgol disgyblion dan ofal cyhoeddus (Plant y Gofelir Amdanynt).	Swyddogion o'r Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg a'r Gwasanaeth Diogelu a Chefnogi
Grŵp Strategaeth CAMHS	Datblygu strategaeth leol ar gyfer Lles Emosiynol	Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg, CAMHS, NSPCC, Sector Gwirfoddol

ADNABOD PLANT SYDD AG AAA

Lefel yr Ysgol

Bydd Polisi AAA pob ysgol yn disgrifio ei threfniadau ar gyfer adnabod plant ag AAA. Bydd y trefniadau hyn fel arfer yn cynnwys detholiad o'r canlynol:-

- Arsylwi gan yr athrawon pwnc neu ddsbarth
- Arsylwadau gan rieni
- Asesu drwy addysgu
- Aseiad sylfaen e.e. Teithio Gyda'n Gilydd
- Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- Profion safonedig

CEFNOGI PLANT AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG DRWY WEITHREDU GAN YR YSGOL A GWEITHREDU GAN YR YSGOL A MWY

YR YMAGWEDD RADDOLEDIG

- Model o weithredu ac ymyrraeth mewn ysgolion a gosodiadau blynyddoedd cynnar i helpu plant sydd ag AAA.
- Mae'r ymagwedd yn cydnabod bod continwwm o AAA.
- Dylid canolbwyntio mwy o fedruswydd arbenigol ar yr anawsterau mae plentyn yn eu profi lle bo angen.

Gweithredoedd Blynyddoedd Cynnar:

- Bydd ymarferwyr addysg gynnar sy'n gweithio gyda'r plant o ddydd i ddydd yn cydnabod bod gan blentyn AAA.
- Ynghyd â'r CAAA byddant yn darparu ymyriadau sy'n **ychwanegol at** neu'n **wahanol** i'r rheini a ddarperir fel rhan o drefniadau arferol y gosodiad.
- Caiff CAU ei lunio a'i adolygu'n rheolaidd â'r rhieni.

Gweithredu Blynyddoedd Cynnar a Mwy

- Bydd yr ymarferydd addysg gynnar sy'n gweithio gyda'r plentyn a'r CAAA o ddydd i ddydd yn derbyn cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol.
- Gweithredir strategaethau sy'n wahanol i'r rhai hynny a ddarperir ar gyfer y plentyn drwy *Weithredu Blynyddoedd Cynnar*.
- Fel rheol, caiff CAU newydd ei lunio a'i adolygu â'r rhieni.

YR YMAGWEDD RADDOLEDIG YN Y CYFNOD CYNRADD

Gweithredu gan yr Ysgol

- Pan fydd athro/athrawes (d)dosbarth yn nodi bod gan ddisgybl AAA bydd yr athro/athrawes (d)dosbarth yn llunio ymyriadau sy'n **ychwanegu at** neu'n **wahanol** i'r rheini a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol.
- Yr athro/athrawes (d)dosbarth sy'n parhau'n gyfrifol am weithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd ac am lunio a datblygu rhaglen unigol – caiff CAU ei lunio a'i adolygu gyda'r rhieni.
- Gallai'r CAAA fod yn gyfrifol am: -
 - lunio ymyriadau i'r plentyn ar gyfer y dyfodol yn dilyn trafodaeth â chydweithwyr a rhieni; a
 - monitro ac adolygu'r weithred.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

- Bydd y CAAA a'r athro/athrawes (d)dosbarth yn gofyn am gymorth gan wasanaethau allanol yn dilyn ymgynghoriad â'r rhieni.
- Bydd yr athro/athrawes (d)dosbarth a'r CAAA yn derbyn cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwr allanol.
- Gweithredir strategaeth sy'n **ychwanegu at** neu'n **wahanol** i'r rheini a ddefnyddir yng Ngweithredu gan yr Ysgol – caiff CAU ei lunio.
- Dylai'r CAAA fod yn gyfrifol am: -
 - unrhyw asesiad pellach o'r plentyn;
 - lunio ymyriadau ar gyfer y plentyn yn y dyfodol yn dilyn trafodaeth â chydweithwyr a rhieni; a
 - monitro ac adolygu'r camau a gymerwyd.

YR YMAGWEDD RADDOLEDIG YN Y SECTOR UWCHRADD

Gweithredu gan yr Ysgol:

- Pan fydd staff yn nodi bod gan ddisgybl AAA bydd yr athrawon pwnc, yn dilyn ymgynghoriad â'r CAAA a'r rhieni, yn llunio ymyriadau sy'n **ychwanegu at** neu'n **wahanol** i'r rheini a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol.
- Yr athrawon pwnc a bugeiliol sy'n parhau'n gyfrifol am weithio gyda'r disgybl o ddydd i ddydd ac am lunio a datblygu rhaglen unigol – caiff CAU ei lunio.

- Gallai'r CAAA fod yn gyfrifol am: -
 - lunio ymyriadau i'r disgybl ar gyfer y dyfodol yn dilyn trafodaeth â chydweithwyr a rhieni; a
 - monitro ac adolygu'r weithred.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

- Bydd y CAAA staff pwnc/bugeiliol yn gofyn am gymorth gan wasanaethau allanol yn dilyn ymgynghoriad â'r rhieni.
- Bydd yr athrawon a'r CAAA yn derbyn cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwr allanol.
- Gweithredir strategaeth sy'n **ychwanegu at** neu'n **wahanol** i'r rheini a ddefnyddir yng Ngweithredu gan yr Ysgol – caiff CAU ei lunio. Dylai'r CAAA fod yn gyfrifol am: -
 - unrhyw asesiad pellach o'r plentyn;
 - lunio ymyriadau ar gyfer y plentyn yn y dyfodol yn dilyn trafodaeth â chydweithwyr a rhieni; a
 - monitro ac adolygu'r camau a gymerwyd.

Mewn nifer fechan o achosion mae'n bosibl y bydd angen nawdd byrdymor ychwanegol ar gyfer ymyrraeth Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy er mwyn hwyluso ymyriadau/gweithredoedd penodol. Mae ysgolion yn ymwybodol o'r broses ac unrhyw ddogfennaeth sydd ei hangen ar gyfer unrhyw geisiadau tebyg.

ASESIAD STATUDOL

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw'r Asesiad Statudol, gyda chydweithrediad agos â rhieni, ysgolion ac asiantaethau eraill.

Mae ALI Wrecsam yn cynnal asesiadau statudol yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yng Nghôd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Ebrill 2002).

Gall ceisiadau am asesiadau statudol ddod gan:

- a) rieni
- b) ysgolion
- c) asiantaethau eraill e.e. y Bwrdd Iechyd, yGwasanaethau Cefnogi a Diogelu.

Gwneir Asesiad Statudol yn dilyn penderfyniadau gan yr ysgolion sy'n ymwneud â chefnogaeth ac ymyrraeth gan ystyried tystiolaeth sy'n cynnwys:-

- barn y rhieni a gofnodwyd yn ystod Gweithredu Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Weithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy;
- tystiolaeth o ymyrraeth ddigonol ac effeithiol yn ystod Gweithredu BC a Gweithredu BC a Mwy;

- barn ganfyddadwy plentyn;
- copïau o GAU o Weithredu Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Weithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy;
- tystiolaeth o gynnydd dros amser (neu ddiffyg cynnydd);
- copïau o gyngor gan y gwasanaethau iechyd a'r Gwasanaeth Diogelu a Chefnogi;
- tystiolaeth o gyswllt a barn gweithwyr proffesiynol â gwybodaeth arbenigol a medrusrwydd perthnasol y tu allan i allu rheolaidd yr ysgol neu'r gosodiad;
- tystiolaeth sy'n dangos i ba raddau y mae'r ysgol neu'r gosodiad wedi dilyn cyngor a ddarparwyd gan weithwyr proffesiynol â gwybodaeth arbenigol berthnasol.

Cynhelir asesiad statudol os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn dangos bod gan y plentyn anawsterau sylweddol, ac er gwaethaf cymorth a chefnogaeth briodol, nad yw'r plentyn wedi gwneud cynnydd sylweddol.

Caiff Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig eu llunio os yw anghenion addysgol arbennig disgyblion yn rhai sylweddol, hirdymor, ac na allai'r adnoddau sydd fel arfer ar gael i ysgolion a gosodiadau blynyddoedd cynnar fodloni'r anghenion hynny.

Y BROSES ASESU

Ar ôl derbyn cais am Aseiad Statudol, anfonir llythyr o gydnabyddiaeth i'r rhieni sy'n esbonio bod yr asesiad yn cael ei ystyried, yn esbonio'r broses ac yn cynnwys ffurflen Atodiad A sy'n gofyn i rieni roi eu barn am anghenion eu plentyn. Gall rhieni hefyd nodi unrhyw un yr hoffent i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â nhw yn ogystal â'r asiantaethau statudol. Gyda'r pecyn gwybodaeth ceir disgrifiad o'r terfynau amser sy'n gysylltiedig, a'r prosesau a ymgwymerir â nhw yn ystod y terfynau amser hynny. Ceir hefyd:-

- (i) Taflen wybodaeth sy'n rhoi gwybod i rieni am Wasanaeth Partneriaeth Rhieni Wrecsam sy'n cynnig cefnogaeth i rieni a gofalwyr sydd â phlant ag anghenion addysgol arbennig.
- (ii) Gwybodaeth ynghylch 'Asesiadau a Datganiadau' a gyhoeddwyd gan CSIE.
- (iii) Gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig – a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhoddir gwybod i rieni pwy yw eu Swyddog Personol y gellir cysylltu â nhw drwy gydol y broses.

Bydd yr holl asiantaethau a allai fod yn gysylltiedig â'r asesiad h.y:-

- a) Y rhieni
- b) Yr ysgol
- c) Meddyg
- ch) Seicolegwyr Addysg
- d) Gwasanaethau Cefnogi a Diogelu
- dd) Unrhyw unigolion eraill (megis dymuniadau canfyddedig y plentyn) y mae'r Awdurdod Lleol neu unrhyw gorff arall y ceisir cyngor ganddynt, yn ystyried yn ddymunol. Yn arbennig, rhaid ceisio cyngor gan Addysg Plant y Gwasanaethau (SCE) os yw rhiant y plentyn yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

yn cael gwybod drwy lythyr bod Asesiad Statudol yn cael ei ystyried. Mae hyn yn caniatáu i asiantaethau gasglu unrhyw gofnodion am y plentyn a allai gyfrannu at eu cyngor os aiff yr asesiad yn ei flaen.

Mae'r broses uchod hefyd yn gymwys os derbynnir cais gan rieni; a phan derbynnir cais gan rieni, bydd yr Awdurdod Lleol yn ysgrifennu at ysgol y plentyn i ofyn am wybodaeth benodol a chofnodion o lefelau, darpariaethau a chynnydd y plentyn.

O fewn chwe wythnos o dderbyn unrhyw gais, rhaid i'r Awdurdod Lleol benderfynu a yw'r Asesiad Statudol i fynd yn ei flaen. Grŵp Cymedroli sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad, a'u gwaith yw sicrhau:-

- (i) Bod ysgolion wedi darparu cefnogaeth ac ymyrraeth briodol dros gyfnod o amser;
- (ii) Eu bod wedi cynnwys yr asiantaethau allanol priodol a bod cynnydd y plentyn (neu ddiffyg cynnydd) wedi'i fonitro, ei adolygu'n rheolaidd a'i gofnodi;
- (iii) Nad yw'r plentyn wedi gwneud cynnydd digonol er gwaethaf yr ymyriadau hyn; a
- (iv) Bod anghenion y plentyn yn rhai sylweddol hirdymor, sydd angen mwy o gefnogaeth na all ysgolion ei darparu fel rheol o'u cyllidebau eu hunain.

Os gwneir penderfyniad i beidio ag asesu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ysgrifennu at y rhieni, yr ysgol a'r holl asiantaethau statudol i roi gwybod iddynt am ei benderfyniad.

Gwahoddir rhieni i drafod y rhesymau dros wneud y penderfyniad gyda'u Swyddog Personol, a rhoddir esboniad manwl o'u hawl i apelio.

Os gwneir penderfyniad i symud yr Asesiad Statudol yn ei flaen, bydd yr Awdurdod Lleol yn ysgrifennu at y rhieni i roi gwybod iddynt am y penderfyniad hwn, ac i roi gwybod iddynt y gwneir ceisiadau am gyngor h.y.:-

- a) Cyngor y rhieni
- b) Cyngor addysgol
- c) Cyngor meddygol
- ch) Cyngor seicolegol
- d) Cyngor y Gwasanaethau Diogelu a Cefnogi
- dd) Unrhyw gyngor arall (megis dymuniadau canfyddedig plentyn) y mae'r Awdurdod Lleol neu unrhyw gorff arall y gwneir cais am gyngor ganddynt yn ystyried yn ddymunol. Yn arbennig, rhaid ceisio cyngor gan Addysg Plant y Gwasanaethau (SCE) os yw rhiant y plentyn yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

Anfonir ceisiadau ffurfiol am gyngor i'r gweithwyr proffesiynol a enwir uchod, ynghyd ag unrhyw wybodaeth briodol am y plentyn a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Asesiadau Statudol.

Mae gofyn i asiantaethau gyflwyno unrhyw gyngor o fewn chwe wythnos o dderbyn y cais.

Yna mae gan yr Awdurdod Lleol bedair wythnos bellach i ystyried y cyngor, gwneud ceisiadau pellach am gyngor/dystiolaeth os oes angen a phenderfynu a ddylid llunio Datganiad ai peidio. Caiff meysydd angen a lefelau cyrhaeddiad y plentyn eu mesur yn erbyn y meini prawf cytunedig.

Caiff y penderfyniad ynghylch p'un ai y dylid llunio Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ai peidio ei gymedroli gan grŵp o swyddogion, a chaiff eu penderfyniadau hwy eu harchwilio gan banel amlasiantaeth.

Os gwneir penderfyniad i beidio â llunio Datganiad, rhoddir gwybod i'r rhieni, cynhyrchir nodyn yn lle datganiad, a gwahoddir y rhieni i drafod y rhesymau dros wneud y penderfyniad gyda'u Swyddog Personol, a rhoddir esboniad manwl o'u hawl i apelio.

Mae nodyn yn lle datganiad yn rhoi cyngor i rieni ac ysgolion ar sut i fodloni anghenion y plentyn orau gan ddefnyddio adnoddau'r ysgol.

DATGANIAD O ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Os yw'r Awdurdod Lleol yn penderfynu ysgrifennu Datganiad, mae ganddynt bythefnos i wneud hynny.

Wrth ysgrifennu Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, caiff ei rannu i chwe rhan, a bryd hynny yr ysgrifennir Datganiad Arfaethedig.

Rhan 1 – Cyflwyniad sy'n cynnwys manylion personol y plentyn a manylion yr unigolyn/unigolion â chyfrifoldeb rhiant.

Rhan 2 – Yn rhoi manylion pob un o anghenion addysgol y plentyn fel a nodir yn ystod yr asesiad.

Rhan 3 – Yn nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion a nodwyd yn rhan 2 ac yn cynnwys yr amcanion sydd i'w cyflawni, y ddarpariaeth i fodloni'r amcanion a'r trefniadau monitro.

Rhan 4 – Y math o ysgol a all fodloni anghenion y plentyn.

Rhan 5 – Yn disgrifio anghenion anaddysgol y plentyn.

Rhan 6 – Yn disgrifio'r ddarpariaeth i fodloni unrhyw anghenion a nodwyd yn rhan 5.

Anfonir y Datganiad Arfaethedig i'r rhieni a'r holl bobl hynny a roddodd gyngor. Bydd y rhieni hefyd yn derbyn copïau o'r holl gyngor a gyfrannodd at yr Asesiad Statudol.

Gwahoddir y rhieni i drafod cynnwys y Datganiad â'u Swyddog Personol, ac i fynegi ysgol ddewisol. Rhoddir gwybod i rhieni bod angen iddynt gysylltu â'u Swyddog Personol o fewn 15 diwrnod o dderbyn y Datganiad.

Yna gellir trefnu cyfarfod, neu gyfres o gyfarfodydd os oes angen.

Gallai cyfarfodydd â rhieni i drafod cynnwys y Datganiad Arfaethedig arwain at newidiadau cytunedig; mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y cyfarfodydd hyn yn hanfodol bwysig o ran sicrhau bod gan rhieni ddigon o wybodaeth, a'u bod yn deall y darpariaethau a amlinellwyd. Unwaith y daw'r rhieni â'r Awdurdod Lleol i gytundeb, cyhoeddir y Datganiad Terfynol.

Ar ôl 15 diwrnod, os nad yw'r rhieni wedi cyflwyno cynrychiolaethau, cyhoeddir y Datganiad Terfynol gan enwi'r ysgol briodol agosaf.

Os na ellir dod i gytundeb, gwahoddir y rhieni i gymryd rhan mewn cyfarfod annibynnol i ddatrys yr anghydfod a/neu wneud cais i'r Tribiwnlys AAA. Anfonir copi o'r Datganiad Terfynol i'r rhieni ac i'r holl bobl hynny oedd yn gysylltiedig â'r broses asesu ynghyd â chopïau o'r holl gyngor a dderbyniwyd.

TREFNIADAU CYFRYNGU

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno y caiff gwasanaethau cyfryngu eu darparu gan Wasanaeth Datrys Anghydfodau AAA Gogledd Cymru a ddarperir gan SNAP (Cymru).

CYNLLUN PARTNERIAETH Y RHIENI

Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ddarparu Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i unrhyw riant sydd â phlentyn ag AAA ar ba bynnag cyfnod o'r Côt Ymarfer.

MONITRO DERBYN PLANT AG AAA

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyhoeddi polisi derbyn ar gyfer pob un o'i ysgolion. Mewn perthynas ag AAA, dywed y polisi:-

Nod yr Awdurdod yw gwneud darpariaeth addysg briodol a pherthnasol i bob plentyn ag anghenion addysgol arbennig, fel y gallant ddatblygu eu potensial i'r eithaf. Gwneir trefniadau i nodi anghenion addysgol arbennig pob plentyn a chynnig y ddarpariaeth addysg briodol.

Polisi'r Awdurdod yw cefnogi cynhwysiad disgyblion ag anghenion arbennig o fewn sectorau'r brif ffrwd lle bo hynny'n briodol.

Pan fo gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig bydd yr Awdurdod Lleol yn enwi'r ysgol sy'n gallu bodloni'r anghenion hynny yn dilyn ymgynghoriad â rhieni/gofalwyr.

Caiff derbyniadau plant â datganiadau o AAA eu monitro gan ddefnyddio'r dulliau canlynol: -

- Mae'r Panel Cymedroli Asesiadau Statudol yn monitro derbyniadau disgyblion unigol â datganiadau.
- Mae adolygiadau blynyddol o ddatganiadau'n monitro perthnasedd parhaus gosodiad y plentyn.
- Cynhelir archwiliadau o ddarpariaethau adnoddedig/ysgolion arbennig ddwywaith bob blwyddyn.
- Caiff argaeledd darpariaethau adnoddedig ei fonitro'r barhaus ynghyd â'r angen am leoedd cynlluniedig.

CEFNOGI YSGOLION I WNEUD DARPARIAETHAU AR GYFER PLANT AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

YSGOLION Y BRIF FFRWD AC YSGOLION ARBENNIG

Nawdd Fformwla

- Mae pob ysgol yn derbyn dyraniad nawdd ar gyfer disgyblion heb Ddatganiadau drwy ei chyllideb ddirprwyedig. Tybir y bydd ysgolion yn defnyddio swm tybiannol (5%) ar gyfer eu darpariaeth anghenion addysgol arbennig.
- Defnyddir archwiliad blynyddol o ddarpariaeth ysgolion arbennig a'r ddarpariaeth adnodedig i ddirprwyo swm arian ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r archwiliad yn gosod disgyblion mewn bandiau ariannu sy'n amrywio gan ddibynnu ar ddirifoldeb a chymhlethdod anghenion y plentyn.
- Dyrennir adnoddau unigol i ddisgyblion â lefelau sylweddol o AAA drwy ddatganiadau neu drwy archwiliadau neu adolygiadau blynyddol dilynol.

Gwasanaethau Cefnogi

- Mae gan bob ysgol fynediad i gyngor, hyfforddiant a chefnogaeth ar y polisi anghenion addysgol arbennig ac arfer proffesiynol drwy Swyddogion y Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg.
- Mae pob ysgol yn derbyn dyraniad blynyddol o sesiynau gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Trafodir defnydd yr amser hwn fel rhan o'r broses ymgynghori.
- Mae Athrawon Ymgynghorol (Synhwyraidd) yn darparu cyngor, asesiadau a pheth cefnogaeth uniongyrchol i ddisgyblion â namau gweledol a namau ar y clyw.
- Cefnogir disgyblion ag anawsterau dysgu sylweddol gan athrawon o Wasanaeth Anghenion Arbennig yr Awdurdod Lleol.
- Cefnogir disgyblion ag anawsterau Iaith a Lleferydd gan y Gwasanaeth Allgymorth Iaith a Lleferydd.
- Mae pob ysgol uwchradd ynghyd â nifer o ysgolion babanod/iau/cynradd wedi'u hadnoddi'n arbennig i fodloni anghenion disgyblion gan gwmpasu ystod o anghenion addysgol arbennig (gweler atodiad 2).
- Mae'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg yn hybu presenoldeb ysgol ac yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â diogelu plant a chyflogaeth.
- Mae nifer o ddisgyblion anfodlon ym mlynnyddoedd 10 ac 11 yn derbyn addysg amgen, profiad gwaith a gosodiadau cyswllt coleg.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal tair Uned Atgyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd: -
 - ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol; neu
 - sy'n profi anawsterau wrth geisio addasu i ysgolion y brif ffrwd oherwydd problemau emosiynol/cymdeithasol neu sy'n

- famau ifanc.

ARCHWILIO, CYNLLUNIO, MONITRO AC ADOLYGU **DARPARIAETHAU AR GYFER PLANT AG ANGHENION** **ADDYSGOL ARBENNIG**

TREFNIADAU CYFFREDINOL

1. Caiff pob Adolygiad Allanol (Estyn) ei archwilio mewn perthynas â'r safonau a'r darpariaethau ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig. Mae Swyddogion Cynhwysiad Addysg yn cynnal ymweliadau ysgol cyn ac ar ôl yr adolygiad i roi cyngor ar bolisi, cynllunio ac adolygu anghenion addysgol arbennig fel bo'n briodol.
2. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg yn adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig drwy ymweld â phob ysgol. Darperir adroddiadau i ysgolion, Swyddogion y Cyfnodau Cynradd ac Uwchradd.
3. Cynhelir cyfarfodydd Deialog Datblygu Ansawdd bob tymor rhwng Swyddogion a phenaethiaid. Nodir blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, a gallai'r blaenoriaethau hyn gynnwys AAA. Bydd y gwasanaeth yn ymateb i geisiadau am gymorth.
4. Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal cyfarfodydd Ymyrraeth a Chefnogaeth a dargedir i drafod safonau sy'n cynnwys staff AAA.
5. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Rheolwyr Cynhwysiad Addysg, a thrafodir materion sy'n codi o'r amrywiol gwasanaethau mewn perthynas â chynllunio/monitro/adolygu cyffredinol.
6. Mae Paneli Ymddygiad yn cydlynu derbyniadau i'r darpariaethau ar gyfer plant ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.
7. Caiff pob plentyn ei (h)asesu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu: Profion Galluoedd Gwybyddol, Prawf Darllen Cymru Gyfan, canlyniadau profion sylfaenol a chanlyniadau Asesiad yr Athro. Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio system DLDEY sy'n ei alluogi i fesur y cynnydd a wneir gan blant ag AAA yn ôl eu hoed, eu cyfnod a'r math o AAA sydd ganddynt.
8. Cynhelir adolygiad blynyddol ar bob plentyn sydd ar ddatganiad. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan y plentyn. Mae'r Awdurdod Lleol yn gofyn yn benodol i ysgolion wahodd swyddog o'r Awdurdod Lleol i adolygiad blynyddol plentyn pan fo'u cynnydd neu osodiad yn achosi pryder, a mynychir pob adolygiad trosglwyddo hefyd. Caiff adroddiadau pob adolygiad blynyddol eu harchwilio gan yr Awdurdod Lleol.
9. Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu diwyg ei adolygiad blynyddol safonol. Mae'r diwyg newydd yn canolbwyntio ar annog ysgolion i roi mesurau dibynadwy a gwrthrychol o gynnydd i'r Awdurdod Lleol.

SICRHAU HYFFORDDIANT, CYNGOR A CHEFNOGAETH I STAFF SY’N GWEITHIO GYDA PHLANT AG AAA

Mae’r Awdurdod Lleol yn darparu rhaglen reolaidd o hyfforddiant ar gyfer ei ysgolion ar faterion AAA. Mae’r rhaglen hon yn seiliedig ar anghenion hyfforddi a nodwyd drwy ymgynghori ag ysgolion, dadansoddi ffurflenni gwerthuso o gyrsiau blaenorol a thrwy flaenoriaethau hyfforddi’r Awdurdod Lleol ei hun. Mae ffurfiau’r hyfforddiant a’r cyngor a gynigir gan yr Awdurdod Lleol fel a ganlyn:-

- Cynigir cyrsiau fel rhan o’r rhaglen HMS dymhorol arferol
- Hyfforddiant sy’n ymwneud â Chôd Ymarfer AAA Cymru
- Hyfforddiant mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Digwyddiadau unigol ar bynciau penodol megis dyslecsia ac awtistiaeth
- Cyngor a chyfarwyddyd i unigolion neu grwpiau a gynigir gan y Gwasanaethau Cynhwysiad Addysg
- Rhannu arfer da
- Canolfan ‘Galw Heibio’ – yng Nghanolfan Ddarllen Gwersyllt.
- Cefnogaeth, asesiadau, cyfarwyddyd a chynghor sy’n ymwneud â TGC
- Nawdd i athrawon a chynorthwywyr nad ydynt yn dysgu i fynychu cyrsiau achrededig.

ADOLYGU A DIWEDDARU’R POLISI HWN YN RHEOLAIDD

- Caiff y polisi hwn ei adolygu’n flynyddol yn dilyn ymgynghoriad ag ysgolion a defnyddwyr eraill y gwasanaeth.
- Caiff y polisi ei ddiweddarau yn sgil: -
 - (i) unrhyw newidiadau deddfwriaethol
 - (ii) newidiadau i bolisiau ariannu’r llywodraeth
 - (iii) cyngor gan LICC/ESTYN
 - (iv) Adolygiadau’r Gwasanaeth Cynhwysiad Addysg
 - (v) ymgynghoriad â budd-ddeiliaid.
- Mae gan yr Awdurdod Lleol Gytundeb Lefel Gwasanaeth â’r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ddarparu Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni. Adolygir y gwasanaeth hwn drwy:-
 - adolygiad ysgrifenedig blynyddol gan CAB i’r Pennaeth Cynhwysiad Addysg. Mae’r adroddiad hwn yn manylu nifer, natur a chanlyniad yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol.

MAE PAWB YN CYFRIF

CYFLAWNI ADDYSG GYNHWYSOL YN WRECSAM

DATGANIAD POLISI

1. **Nod**

Nod y polisi hwn yw amlinellu ymroddiad yr Adran Addysg i egwyddorion Addysg Gynhwysol a'i dyheadau ar gyfer rhoi'r ymroddiad hwn ar waith ym mhob gweithgaredd perthnasol.

2. **Diffiniad o gynhwysiad**

Mae addysg gynhwysol yn broses barhaus sy'n ymwneud â goresgyn y rhwystrau i ddysgu a chynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc yn eu hysgolion lleol. Mae angen ymroddiad ysgolion ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu polisiâu ac arferion sy'n sicrhau cyfle a mynediad cyfartal i addysg, sy'n canolbwyntio ar godi cyrhaeddiad pob dysgwr.

3. **Y weledigaeth**

- **Credu a chroesawu cynhwysiad**

Mae gan Awdurdod Lleol (ALI) Wrecsam weledigaeth sy'n croesawu'r holl blant a phobl ifanc yn Wrecsam – mewn darpariaethau cyn-ysgol, mewn ysgolion ac mewn cymunedau lleol. Egwyddor hanfodol a diysgog y weledigaeth hon yw'r cred bod targedau addysg yr un fath i bob plentyn ac unigolyn ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau na'u nodweddion personol.

- **Datblygiad a hygyrchedd**

Rydym yn rhagweld datblygiad parhaus cymunedau ac amgylcheddau dysgu yn Wrecsam, lle mae gan blant a phobl ifanc fynediad i addysg o ansawdd mewn amgylcheddau diogel a gonest, lle y gallant fod yn siŵr eu bod yn perthyn a lle gellir eu cefnogi i ddatblygu'n aelodau annibynnol, gwerthfawr, cymwys a medrus o'u cymunedau.

- **Cyrhaeddiad**

Mewn cymunedau ac amgylcheddau dysgu fel y rhain, bydd plant a phobl ifanc Wrecsam yn elwa o brofiadau addysgol iach a datblygiadol. Bydd ganddynt fynediad i drefniadau addysgu priodol a hyblyg sydd wedi'u nodweddu gan ragoriaeth, a bydd ganddynt rwydweithiau cefnogaeth priodol fel y gallant ddatblygu i fod y gorau y gallant fod, ac yn fwy nag y gallant ddychmygu.

-

Partneriaethau

Rydym yn gwerthfawrogi partneriaeth, a bydd yn ymdrechu, ynghyd â'i bartneriaid, i ddatblygu polisiau, systemau a phrosesau fydd yn hyrwyddo ei weledigaeth o gynhwysiad. Bydd swyddogion yn cefnogi datblygiad cymunedau, ysgolion a sefydliadau addysgol i fod yn gynhwysol – gan groesawu, gwerthfawrogi, awdurdodi a chefnogi.

- Ymagwedd

Ni fyddwn yn methu o ran mynd i'r afael ag ymagweddau a newid systemau er mwyn cyflawni'r gorau i bob un o blant a phobl ifanc Wrecsam.

4. Cynhwysiad, Cyflawniad a Chyrhaeddiad

Creda Wrecsam fod cydberthynas gref rhwng dysgu o ansawdd uchel ac addysgu a chynhwysiad, a bydd ysgolion yn fwy tebygol o ddatblygu arferion cynhwysiad effeithiol os ydynt yn ymroddedig i wella'r ysgol. Yn yr un modd bydd ein cefnogaeth i gyfoethogi cynhwysiad yn canolbwyntio ar ddatblygu galluoedd athrawon ac ymagweddau ysgol gyfan.

Rydym yn croesawu ac yn mawrhau amrywiaeth, ac yn credu bod ysgolion effeithiol, wrth fawrhau amrywiaeth, yn mynd i'r afael â'r anghyfartaleddau rhwng y cyfleoedd i godi cyrhaeddiad a chyflawniad i bawb, ac yn eu lleihau.

5. Cyfle cyfartal

Bydd Wrecsam yr hyrwyddo cynhwysiad fel rhan bwysig o'i bolisi cyfle cyfartal. Mae hyn yn gyson â'r farn mai ysgolion â chyfeiriadedd cynhwysol yw'r dull mwyaf effeithiol o fynd i'r afael ag ymagweddau gwahaniaethol, o greu cymunedau croesawgar, adeiladu cymdeithas gynhwysol a chyflawni addysg i bawb.

Mae cynhwysiad yn cynrychioli proses sydd eisoes yn cael ei gweithredu yn ysgolion Wrecsam. Y bwriad yw cyflawni cyfle cyfartal cyson ym mhob un o ysgolion Wrecsam. Cyflawnir hyn drwy'r broses gwella ansawdd ysgolion a gefnogir drwy adolygu ein dulliau a thrwy ddangoswyr ansawdd.

Rydym o'r farn bod datblygu cynhwysiad yn ymwneud â newid ymagweddau gymaint ag y mae'n ymwneud â hyrwyddo gweithgareddau cynhwysol. Mae'r ymagweddau hyn yn ymwneud â chydabod a dathlu gwahaniaeth unigol yn hytrach na chanolbwyntio ar broblemau ac anghenion.

6. Mynediad

Ein dyhead yw gwneud pob adeilad, gweithgaredd a digwyddiad addysgol yn gwbl hygyrch i blant ac oedolion anabl. Bydd hyn yn cynnwys mynediad:-

- i'r cwricwlwm
- i adeiladau
- i wybodaeth

Bydd hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â Deddf Anabledd 2010 ac yn cynyddu cyfranogiad ystyrion.

7. **Adnoddau**

Bydd yr egwyddorion rheoli adnoddau canlynol wrth wraidd ein hymagwedd:-

- syml, eglur a theg
- yn adlewyrchu cyfle cyfartal
- wedi'i fonitro a'i werthuso

Ymchwilir i ddulliau eraill o ariannu “anghenion ychwanegol”. Yn ogystal â hyn, bydd angen cynnal adolygiad sylfaenol o'r hyn a olygai cefnogaeth, gan arwain at ailstrwythuro cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad ysgol gyfan yn hytrach nag anghenion disgyblion unigol.

Rydym yn cydnabod rôl bwysig ei ysgolion arbennig a'i ddarpariaethau adnoddedig o ran bodloni anghenion ystod o ddisgyblion. Mae'n rhagweld dyfodol lle bydd staff darpariaethau “arbenigol” yn gweithio mwy â staff a disgyblion y brif ffrwd i weithredu trefniadau mwy cynhwysol. Caiff pontio rhwng y brif ffrwd a darpariaethau arbenigol ei annog ymhellach.

8. **Hyfforddiant**

Byddwn yn darparu cefnogaeth barhaus i ysgolion a'u cyrff llywodraethol er mwyn:-

- hybu ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r polisi cynhwysiad
- amlygu arfer da presennol
- ymchwilio i faterion cyffredinol sy'n ymwneud â chynhwysiad a chynghori ar gynllunio adnoddau
- helpu i ddatblygu polisiâu'r cwricwlwm fel y gellir ystyried yr angen i wahaniaethu rhwng profiadau dysgu er mwyn cydweddu ag anghenion ystod ehangach o ddysgwyr.

Cynigir hyfforddiant priodol i ysgolion â'r nod i sicrhau y gall pob aelod o staff ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd presennol fel y gallant fodloni anghenion dysgu ystod eang o ddisgyblion mewn modd hyderus.

Yn ogystal â hyn, cynigir hyfforddiant ar gynhwysiad i bob llywodraethwr ysgol.

**DARPARIAETHAU ADNODDEDIG I BLANT AG AAA YN
YSGOLION Y BRIF FFRWD**

**Ysgolion Babanod/Iau/Cynradd y Brif Ffrwd â Darpariaeth Adnodedig i Blant
ag Anghenion Addysgol Arbennig**

YSGOL	LLEOEDD CYNLLUNIEDIG	ANGHENION
Ysgol Fabanod Acton	10	Iaith
Ysgol Iau Acton	10	Iaith
Ysgol Gynradd Alexandra (Babanod)	8	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Gynradd Alexandra (Iau)	11	Amrywiaeth o AAA
Canolfan Asesu Alexandra	25	Amrywiaeth o AAA
Ysgol Fabanod Borrás	7	Nam ar y clyw
Ysgol Iau Borrás	7	Nam ar y clyw
Ysgol Gynradd Gwenfro (Babanod)	8	Amrywiaeth o AAA
Ysgol Gynradd Gwenfro (Iau)	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Hafod y Wern (Cynradd)	8	Amrywiaeth o AAA
Ysgol Iau Johnstown	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Gynradd Parc Llai	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Iau Rhosymedre	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Babyddol y Santes Anne	8	Amrywiaeth o AAA
Ysgol Gynradd San Silyn	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Gynradd y Santes Fair (Brymbo)	8	Amrywiaeth o AAA
Ysgol y Rofft	22	Cyfathrebu
Ysgol Bodhyfryd	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Heulfan Gwersyllt	25	Anawsterau dysgu dwys a lluosog / anawsterau dysgu sylweddol

Ysgolion Uwchradd â Darpariaeth Adnodedig ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig

YSGOL	LLEOEDD CYNLLUNIEDIG	ANGHENION
Ysgol Uwchradd Bryn Alun	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Uwchradd Clywedog	22	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Uwchradd Clywedog	15	Anawsterau dysgu penodol
Ysgol Uwchradd Darland	15	Anawsterau dysgu penodol
Ysgol Uwchradd Darland	10	Cyfathrebu cymdeithasol
Ysgol y Maelor, Llannerch Banna	15	Anawsterau dysgu penodol
Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Joseff	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol y Grango	10	Anabledd corfforol / Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Morgan Llwyd	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Morgan Llwyd	15	Anawsterau dysgu penodol
Ysgol Rhiwabon	11	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Uwchradd Rhosnesni	22	Anawsterau dysgu cymedrol
Ysgol Uwchradd Rhosnesni	14	Nam ar y clyw
Ysgol Uwchradd Rhosnesni	16	Anhwylder iaith
<u>Unedau Atgyfeirio Disgyblion</u> Canolfan Fyfyrrwyr Lôn Dodd		Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (Cyfnod Allwedol 3)
Prosiect 11		Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (Cyfnod Allwedol 4)
Canolfan Gefnogi Gwersyllt		Anawsterau emosiynol a chymdeithasol
Cyfle		Mamau oed ysgol
<u>Ysgol Arbennig</u> Sant Christopher	240	Anawsterau dysgu dwys / cymedrol